



Economy & Enterprise
Torfaen ~ inspiring business innovation

Economi a Mentergarwch
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes



Tafysgrifwch e-bostych chi i
a' rhwyddiadau!
www.torfaen.gov.uk/business

Torfaen Business Voice Llais Busnes Torfaen

CHWEFROR 2020

www.twitter.com/TorfaenBiz

www.facebook.com/TorfaenBiz

www.facebook.com/TorfaenBiz



DIGWYDDIAD NESAF | 5:00PM
Dydd Iau 19 Mawrth 2020

GWERTH POBL MEWN BUSNES



Lee Monroe HR Dept
lee.monroe@hrdept.co.uk
www.hrdept.co.uk/abergavenny-brecon-blaenau-gwent-cwmbran/



BUSINESS DOCTORS
ACHIEVE YOUR VISION
Matt Preece Business Doctor Newport
Matt.preece@businessdoctors.co.uk
www.businessdoctors.co.uk/business-consultant/matthew-preece/



Nodiadau'r Cadeirydd

Mae wedi bod yn ddechrau prysur iawn i'r flwyddyn gyda digwyddiad rhwydweithio braf iawn a phryd bwyd yn Pages Cwibrân ym mis Ionawr, a digwyddiad "cyfarfod eich cymydog busnes" gyda niferoedd da iawn yn Rodney Parade. Roedd yr adborth o'r digwyddiad hwnnw yn gadarnhaol iawn, ac roedd mwy na chant wedi mynychu o amrywiol sectorau. Mae'r clwb bellach wedi bod yn rhedeg am 19 o flynyddoedd ac mae ychwanegu'r digwyddiadau newydd hyn i'n rhaglen yn rhoi hyd yn oed mwy o gyfle i'n haelodau wneud cysylltiadau newydd a hyrwyddo eu busnesau. Ein bwriad yw cynnal mwy o gyd-ddigwyddiadau gydag ardaloedd eraill yn y dyfodol, felly rhagor maes o law.

Mae ein digwyddiad nesaf ar **19eg Mawrth, 5pm yng Nghlwb Goff Greenmeadow** ac mae wedi ei noddi ar y cyd gan Business Doctors a'r Adran AD a fydd yn rhoi cyflwyniad o'r enw "Gwerth pobl mewn busnes" cyn y byddwn yn symud ymlaen i rwydweithio a chymdeithasu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio eich lle, a chofiwch y cewch ddod â gwestai gyda chi gyda'ch ail docyn.

Yn olaf, hoffwn groesawu Andrew Evans o gwmni cyfrifeg Green and Co i'n pwyllgor. Rwy'n siŵr y bydd Andrew yn dod â syniadau newydd i gyfarfodydd ein pwyllgor gyda'i wybodaeth a'i brofiad, i wneud cyfraniad llawn i'n trafodaethau.



Ashley Harkus
Cadeirydd,
Llais Busnes
Torfaen

Dyddiad i'ch dyddiadue

18/06/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm

17/09/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm

03/12/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm

Cyfarfod Olaf y Ffwyddyn

Mae ein cyfarfod chwarterol cyntaf yn 2020 yn cael ei gynnal **ddydd Iau 19 Mawrth, 5pm yng Nghlwb Goff Greenmeadow**, ac rydym yn falch o gyhoeddi mai Business Doctors a HR Dept sy'n noddi'r digwyddiad ar cyd, gyda chynrychiolwyr o'r ddau fudiad yn rhannu eu harbenigedd ar y noson.

Mae Matt Preece o Business Doctors, uwch-reolwr profiadol, arweinydd a hyfforddwr busnes wedi ei leoli yng Nghasnewydd a threulia'r rhan fwyaf o'i amser yn Ne Ddwyrain Cymru yn helpu entrepreneuriaid i wella'u busnesau. Mae'n ymfalchïo yn ei angerdd i weld busnesau'n cyflawni, ac o bryd i'w gilydd mae'n troi at sgiliau arbenigol rhwydwaith Business Doctors i helpu ei gleientiaid.

Mae HR Dept o Dredegar yn darparu cymorth adnoddau dynol a chyfraith cyflogaeth i fusnesau bach a chanolig fel eich busnes chi, a hynny ledled Y Fenni, Aberhonddu, Blaenau Gwent a Thorfaen. Dan arweiniad lleol Lee Monroe, gweithiwr proffesiynol yn y maes AD, gyda thros 16eg o flynyddoedd o brofiad, mae'r HR Dept yn wahanol am nad yw'n ganolfan galwadau, ond yn hytrach yn fusnes bach, sy'n angerddol dros helpu Mentrau Bach a Chanolig drwy gynnig cyngor personol a c ymarferol i chi a'ch busnes.

Yn ystod y cyflwyniad byr ar y noson, bydd Matt yn rhannu profiadau y gall busnesau lleol eu datblygu i fwynhau gwell 2020 a chyflawni eu dyheadau eu hunain. 'Gallai'r union beth sy'n gwneud elw i'ch busnes, fod yn rhoi llai o werth i'ch busnes' Bydd Lee hefyd yn cynnig cyngor defnyddiol ar 'ofalu am eich pobl' a'r gost wrth wneud camgymeriadau! Yn dilyn y cyflwyniad hwn bydd cyfle i rwydweithio. Mae gan aelodau hawl i 2 le am ddim yn y digwyddiad hwn, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â chydweithiwr, cleient neu gyswllt busnes gyda chi er mwyn i ni allu darparu cysylltiadau gwerthfawr i fusnesau'r naill a'r llall. Gall Aelodau Llais Busnes Torfaen hefyd ddod â baner sbonc – a fydddech cystal â nodi ar y ffurflen archebu electronig os ydych yn dod â'ch un chi.

Archebwch Eich Lle:

<http://bit.ly/tbv-feb-2020-cy>



Greenmeadow Golf and Country Club, Cwmbiran.

TUDALEN 3

Mylchridiadau a bwydion eraill
gael rhyddid o'ch busnes?

TUDALEN 5

A ydych chi strategaeth i gadw
gweithwyr yn addas i filflwyddwyr?

TUDALEN 7

Pa faterion busnes allai arwain
at driwlynys cyflogaeth?



Ydych chi'n breuddwydio am gael rhyddid o'ch busnes?

I ba bwrpas mae eich busnes?

Beth yw'r canlyniad yn y pen draw i'ch busnes? Graddfa, gwerthu, camu yn ôl neu ei basio ymlaen?

Rydych chi'n caru eich busnes, ond...

Ydym, rydyn ni i gyd yn caru ein busnesau, ond mae yna adegau pan rydych chi wir angen SEIBIANT, am wythnos neu fwy efallai, i fynd ar y gwyliau moethus y gwnaethoch freuddwydio amdano pan ddechreuoch eich busnes, pan ddychmygoch y byddech chi'n ddigon cyfoethog i'w fforddio.

No Time?

Mae rhedeg busnes yn werth chweil ac yn creu boddhad, ond mae hefyd yn waith caled, mae'n cymryd llawer o amser ac mae'n straen. Fe wnaethoch chi ddychmygu ar ryw adeg y byddech chi'n gallu cymryd mwy o amser i ffwrdd oherwydd bod gennych weithwyr y gallwch ymddiried ynddynt i'w rhedeg, ac y gallech chi dreulio amser gyda'r teulu, mynd ar wyliau, cael amser i gymryd

rhan mewn hobiau a'ch hoff bethau ... mae'r rhestr yn mynd ymlaen.

Ond, na... rydych chi'n cael eich hun yn treulio'r rhan fwyaf o'ch oriau deffro yn gaeth i'r busnes i'w gadw i fynd.

Rhyddid o'ch Busnes

Mae'r gallu i gamu i ffwrdd o'ch busnes (neu o bosibl ei werthu), a'r busnes hwnnw'n parhau heboch chi, wrth iddo ddarparu digon o incwm / arian parod i chi, yn amhrisiadwy. Os ydych chi am ennill cymaint ag y medrwch o'ch busnes, yn ogystal â threulio llai o amser yn ei redeg o ddydd i ddydd, yna ein seminar rhad ac am ddim yw'r un i chi. Byddwn yn treulio amser yn trafod yr 8 maes ffocws a fydd yn cynyddu gwerth eich busnes yn ogystal â gwella ei effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd, gan helpu i wella'i allu i ehangu a'i atyniad i ddarparu fuddsoddwyr a phrynwyr. Bydd y sesiwn yn rhoi i chi'r offer a syniadau ymarferol y gallwch eu rhoi ar waith yn syth ar ôl y digwyddiad, gan eich helpu i weithio ar eich busnes yn hytrach nag yn eich busnes!

Buddsoddi yn eich gweithwyr yw buddsoddi yn eich busnes

Yn aml, ystyrir bod hyfforddi a datblygu gweithwyr yn ddrud neu'n cymryd llawer o amser, ond os caiff ei wneud yn dda, gall ddarparu elw sylweddol o ganlyniad i'r buddsoddi. Efallai y byddwch am ofyn - "Ond beth sy'n digwydd os ydw i'n eu hyfforddi a hwythau'n gadael?" Er bod hyn yn bryder go iawn, rydych chi hefyd eisiau gofyn i chi'ch hun - "Beth os na fydda i'n eu hyfforddi a hwythau'n aros?"

Canfu ymchwil * a ddatgelwyd y llynedd fod gweithwyr anghynhyrchiol yn costio tua £22 biliwn bob blwyddyn i fusnesau ym Mhrydain. Rhestrwyd mai difflastod oedd un o'r pum rheswm oedd yn tynnu sylw oddi ar waith. Fe wnaeth Syr Richard Branson gyfleu hyn yn dda pan ddywedodd un tro, "Hyfforddwch bobl yn ddigon da fel y gallant adael, a'u trin yn ddigon da fel nad ydyn nhw eisiau gwneud hynny".

Diffiniwch yr anghenion dysgu

Mae'n eithaf posibl y byddwch chi'n dod ar draws gweithiwr eiddgar sy'n gofyn ichi ei anfon ar gwrs i wella'i allu. Er y dylid croesawu ei frwdfrydedd, cofiwch geisio cadw rheolaeth dros y mathau o hyfforddiant a datblygiad rydych chi'n eu darparu ac y bydd eich busnes yn elwa ohonynt.

Gellir defnyddio'r broses arfarnu flynyddol i gael hyd i'r bwlch sgiliau yn eich sefydliad.

Diogelu eich buddsoddiad

Er mai'r unigolyn neu'r tîm sy'n derbyn yr hyfforddiant, y nod yn y pen draw yw cadw'r wybodaeth hon yn eich busnes fel y gallwch fesur yr elw o ganlyniad i'r buddsoddi. Nid ydych am dalu allan, dim ond i'r gweithiwr fynd â'r cymwysterau newydd at gystadleuydd chwe mis yn ddiweddarach.

Bydd cael cymal cymorth astudio mewn contract gweithiwr a chytundeb wedi'i lofnodi ar waith, yn amddiffyn eich buddsoddiad pe bai gweithiwr yn gadael yn gynt na'r disgwyl. Mae'r rhain yn nodi y bydd y cymorth ariannol sy'n cwmpasu'r cwrs, er enghraifft, os yw'r gweithiwr yn gadael o fewn blwyddyn yna bydd 50% yn ad-daladwy. Gall polisi cymorth astudio nodi'ch disgwyliadau o ran amser i fwrdd ar gyfer diwrnodau astudio, arholiadau a beth fydd yn digwydd pe byddent yn methu.

Siaradwch â ni am gynlluniau hyfforddi a datblygu

Gall alinio cynllun hyfforddi a datblygu â'ch amcanion busnes ymddangos yn dasg lafurus. Gadewch inni ddod â'r buddion yn fyw a'i wneud yn bleserus i chi a'ch gweithwyr.

* Cost argyfwng cynhyrchiant y DU yn ôl Totaljobs



A yw eich strategaeth i gadw gweithwyr yn addas i filflwyddwyr?

Mae gan y DU y lefelau cyflogaeth uchaf erioed er gwaethaf y saga Brexit. Mae hyn yn swnio'n wych ar y newyddion, ond yn ymarferol mae'n ei gwneud hi'n anoddach dod o hyd i staff da a'u cadw. Rhaid i gwmnïau fod yn arloesol a sefyll allan ymysg yr holl gystadleuaeth. Ffordd dda o wneud hynny yw edrych ar y pecyn cyfan rydych chi'n ei gynnig.

Eleni, bydd traean o'r gweithlu yn filflwyddwyr'. Yn yr un modd â chenedlaethau o'u blaenau, maen nhw'n dod â syniadau newydd ynghyd ag anghenion newydd gan eu darpar gyflogwyr. Yn gyflym i fabwysiadu cyfleusterau sy'n gwneud bywyd o ddydd i ddydd yn haws, maent yn tueddu i fod yn dda o ran effeithlonrwydd, ond gallant roi'r argraff eu bod yn ddiamynedd wrth fynd ar drywydd newid neu ddringo'r ysgol yrfa.

Diwallu anghenion eich gweithwyr yn y dyfodol

Cyfeirir atynt yn aml fel y "genhedlaeth sy'n rhoi", mae milflwyddwyr yn cael eu denu at gwmnïau sy'n dangos gwerthoedd a rennir. Bydd annog a hwyluso gwirfoddoli yn y gymuned yn hynod ddeniadol. Yn yr un modd â gweithio hyblyg a'r addewid o gydbwysedd da rhwng bywyd a byd gwaith. Gall hyn fod o fudd i'r ddau barti pan gânt eu cynllunio'n iawn.

Er y gallant fod yn gyfarwydd â neidio o swydd i swydd i geisio cael y swydd sy'n berffaith iddyn nhw, mae'r genhedlaeth hon hefyd yn ymwybodol o oedran ymdeol sy'n codi. Disgwylir iddo daro tant ymhlith llawer o weithwyr sydd eisoes yn meddwl am eu dyfodol ac yn cynllunio ar ei gyfer. Bydd hefyd yn codi cwestiynau pwysig i gyflogwyr.

A yw eich ffordd o gynllunio ar gyfer ymdeol ac ymrestru awtomatig yn cryfhau'ch pecyn tâl? Gyda milflwyddwyr yn ffurfio traean o'ch gweithlu yn y dyfodol, gallai fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod cynllunio pensiynau mewn modd cadarnhaol yn fudd allweddol o'ch strategaeth gadw.

Mae'r prinder galwedigaethau yn rhestru yma mha broffesiynau mae'r prinder sgiliau. Fe'i hehangwyd yn ddiweddar felly mae nawr yn well nag erioed i ailedrych ar eich strategaeth i ddenu a chadw gweithwyr medrus. Gall ystod dda o fuddion, nad oes angen iddynt gostio'r byd, wneud byd o wahaniaeth wrth hysbysebu rôl.

I gloi, yn aml mae'n well gan filflwyddwyr lwybr gyrafa sy'n cynnwys digon o fentora ochr yn ochr â datblygiad proffesiynol wedi'i gynllunio. Gellir cyflawni'r ddau trwy gyfarfodydd 1 i 1 a dysgu hyblyg.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Tra bod gweithwyr yn meddwl am eu dyfodol, byddwch chiithau hefyd yn meddwl am ddyfodol eich busnes a phwy sydd ei angen arnoch yn ei le i lwyddo.

Mae gennym ddigon o syniadau ar gynllunio pobl a gallwn gynghori ar strwythur sefydliadol, cadw gweithwyr a llawer mwy. Os ydych chi'n meddwl ymlaen a hoffech glywed ail farn cyn gwneud newidiadau pwysig, rhowch alwad i ni heddiw.

03301 344842 or email lee.monroe@hrdept.co.uk.





Mae newidiadau mawr i gyfraith cyflo gaeth ar y gorwel

Er ei bod yn ymddangos bod y Llywodraeth wedi ymgolli'n llwyr yn Brexit nes ein bod i gyd wedi cyrraedd oedran ymddeol y wladwriaeth ers amser maith, mae rhai newidiadau mawr ar y gweill ar gyfer 2020 i geisio gwella amodau gwaith gweithwyr yn yr economi gig neu ar contractau dim oriau. Mae wedi bod yn bryder ers amser nad oes gan y 2.8% o weithwyr y r amcangyfrifir eu bod yn gweithio yn yr economi gig llai rheoledig neu hyd at 1.8 miliwn o bobl ar contractau dim oriau, yr un hawliau ac amddiffyniadau y mae mwyafrif y gweithwyr eraill yn eu mwynhau.

Mae'r "Cynllun Gwaith Da" yn ceisio newid y cydbwysedd tuag at y gweithiwr ac mae nifer o fesurau ar y gweill yng ngwanwyn 2020. Y mwyaf deniadol yw:

- Bydd gan weithwyr yr hawl i ofyn am contract sefydlog ac amcangyfrifedig ar ôl 26 wythnos. Rhagwelir y bydd rhaid i gyflogwyr ystyried ceisiadau yn yr un ffordd y mae'n rhaid iddynt ystyried ceisiadau i weithio'n hyblyg a bydd rhaid iddynt ddangos rheswm taer o ran y busnes i wrthod

- Bydd y bwllch o ran amser sy'n atal parhad y gwasanaeth yn cael ei ehangu o 1 i 4 wythnos i atal cael gwared ar staff i'w rhwystro rhan cronni'r 26 wythnos o wasanaeth
- Bydd hawl gan weithwyr asiantaeth dderbyn cyflog cyfartal ar ôl 12 wythnos
- Bydd hawl gan bob gweithiwr i ddatganiad o delerau a budd-daliadau allweddol o'r diwrnod gwaith cyntaf

Awgrymwyd y gallai'r newidiadau hyn arwain at ddychwelyd i ffioedd Tribiwnlys Cyflogaeth i'w gwneud yn anoddach i weithwyr orfodi eu hawliau, er, o ystyried y traed moch a wnaed pan gyflwynwyd y rhain ac yna eu gwrthdroi fel rhai anghyfreithlon yn ddiweddar yn y gorffennol, efallai mai'r llywodraeth honno (beth bynnag fo'r blas) byddai'n ei chael hi'n anodd ei wneud neu'n annymunol ac y bydd y newidiadau hyn sy'n gwella hawliau gweithwyr yn cael eu gweithredu heb unrhyw wrthbwysio. Y naill ffordd neu'r llall mae'n bwysig i gyflogwyr fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau er mwyn osgoi mynd i drybini o ran y ddeddfwriaeth.

Pa faterion busnes allai arwain at dribiwnlys cyflogaeth?

Mae oriau gwaith, amgylchedd gwaith, perfformiad ac ymddygiad gwahaniaethol gan weithwyr eraill yn rhai o faterion ymhlith llawer a all godi yn y gweithle. Os nad ydych yn ofalus, ac yn cam-drafod y problemau hyn, gallwch wneud pethau'n llawer gwaeth ac o bosibl achosi i weithwyr anhapus fynd ag achos i dribiwnlys cyflogaeth.

I'ch helpu i reoli cysylltiadau gweithwyr yn dda a chyfyngu ar y risg y bydd anghydfodau'n arwain at gamau cyfreithiol, rydym wedi tynnu sylw isod at rai pwyntiau defnyddiol a mesurau arfer gorau.

Dim contract neu un sy'n aneglur

Gall peidio â chael contract cyflogaeth neu gael contract sy'n aneglur arwain at ddryswch ynghylch disgwyliadau o ran sut y dylai'r berthynas gyflogaeth rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr ddatblygu a ffynnu. O ddechrau unrhyw berthynas waith, mae'n arfer da trin y contract cyflogaeth fel dogfen hanfodol y gallwch ddisgyn yn ôl arni, un sy'n nodi manylion eich disgwyliadau yn glir ar gyfer y rôl a gynigiwyd a'r hyn y byddwch yn ei ddarparu i'r cyflogwr yn gyfnewid. Gyda hynny mewn golwg, dylai eich contractau fod yn glir, wedi'u hysgrifennu'n dda ac yn ddiamwys, gan nodi'r rheolau y dylai eich staff eu dilyn, fel nad oes unrhyw beth yn agored i'w ddehongli.

Hen gontractau

Yn ogystal, er mwyn i'ch contractau cyflogaeth fod yn glir, dylech hefyd sicrhau eu bod i gyd yn gyfredol. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n penderfynu ymestyn eich oriau gwaith, gydag un aelod o'ch staff yn penderfynu cadw at ei oriau gwaith gwreiddiol oherwydd dyna beth sydd yn ei gontract. Am resymau fel hyn, dylech sicrhau y dylai unrhyw newidiadau y byddwch yn ei wneud i weithrediad y busnes, sy'n effeithio ar delerau gwaith gael eu hadlewyrchu yn y contract cyflogaeth. Cofiwch bob amser cynnal cyfnod priodol o ymgynghori gyda'r staff cyn newid a diwygio'r contract.

Gweithredu'n araf neu'n hwyr

Os yw gweithiwr yn cwyno, ee cyhuddiad o wahaniaethu, mae'n bwysig cymryd camau ar unwaith a chynnal ymchwiliad, er mwyn sicrhau eich bod chi'n gwybod yr holl ffeithiau cyn gynted â phosib ac yna gallwch chi gymryd y camau cywir yn gyflym. Gall peidio â gweithredu'n ddigon cyflym arwain y sawl sy'n cwyno i gymryd camau pellach.

Peidio â dilyn codau ymarfer y Llywodraeth

Mae'r Gwasanaeth Cyngori, Cymodi, Cyflafareddu (ACAS) yn gorff statudol sy'n darparu gwybodaeth a chynghor diduedd am ddim i weithwyr a chyflogwyr ar sut i reoli cysylltiadau yn y gweithle yn dda o ran delio â diswyddiadau a materion cysylltiadau gweithwyr eraill. Wrth ddelio â materion disgyblu a chwyno, dylech ddilyn ei godau ymarfer i sicrhau eich bod yn cymryd y mesurau cywir i osgoi mynd ag anghydfod i dribiwnlys. Cyfeirir at y codau ymarfer hefyd gan dribiwnlysoedd cyflogaeth, fel y meincnod ar gyfer y weithdrefn sylfaenol y dylai cyflogwr ei mabwysiadu i sicrhau bod gweithdrefn deg wedi'i dilyn wrth ddelio â mater disgyblu neu gwyno. Ar y sail hon os bydd anghydfod yn dod gerbron tribiwnlys cyflogaeth mae'n fwy na thebyg o edrych yn wael ar unrhyw gyflogwr sy'n dewis dilyn proses nad yw'n cydymffurfio â'r mesurau arferion gorau a nodir yng Nghod ACAS.

Trin perfformiad annigonol yn wael

Wrth fynd i'r afael â materion gweithwyr sy'n perfformio'n wael, mae'n bwysig nodi'r meysydd lle mae'r gweithiwr yn methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig, nodi pa lwyddiant yn y rôl sy'n debyg a pha fesurau y byddwch yn eu rhoi ar waith i helpu'r gweithiwr i gyflawni'r safonau rydych chi'n eu disgwyl. Yn aml, gall delio â phroblemau perfformiad yn gynnar, a chynnal cyfarfodydd gyda'r gweithiwr, droi'r sefyllfa a chael y gweithiwr yn ôl ar y trywydd iawn i ychwanegu gwerth at weithrediad y busnes. Os penderfynwch ddiswyddo gweithiwr, dylech allu profi eich bod wedi gwneud popeth o fewn eich gallu i osgoi terfynu ei gontract.

Peidio â chael cymorth proffesiynol

Os bydd anghydfod yn digwydd neu os y daw cwyn i'r amlwg yn eich busnes, mae'n ddoeth ceisio cymorth proffesiynol. Gall cael cymorth cymwys a phrofiadol sicrhau eich bod yn cael y cynghor cywir i wneud y penderfyniadau cywir yn gyflym ac yn effeithiol. Gall hyn helpu i ddatrys anghydfod mewn ffordd ddigynnwrf, gyflym ac urddasol, a'i atal rhag datblygu i fod yn broblem fwy.

Darparu cefnogaeth i chi drwy anghydfodau staff

Mae cyfraith cyflogaeth yn faes mawr a chymhleth, a gall fod yn anodd cadw'ch holl weithwyr yn hapus - hyd yn oed pan fyddwch chi'n ufuddhau'r gyfraith. **Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ceisio cynghor proffesiynol.**

Ddim yn aelod? Gwnewch 2020 y flwyddyn i ymuno!

Mae aelodaeth yn fforddiadwy gydag un tâl o:

- £48 y flwyddyn am fusnes dan flwydd oed
- £60 am fusnes sydd â llai na 4 o weithwyr
- £78 am 5 neu fwy o weithwyr.

Nid oes unrhyw gostau cudd ac mae aelodaeth yn cynnig dau le am ddim i chi fesul cyfarfod.

Ffoniwch: 01633 648644
E-bost: info@southwalesbusiness.co.uk
Cliciwch ar y ddolen ganlyno:

<http://bit.ly/tbv-business-club>

Cyfarfod yr Aelod



Felly, gadawodd Jess ei swydd 8 mlynedd yn ôl oherwydd ei bod wedi blino gydag amgylchedd gorfforaethol sychlyd ac roedd eisiau adeiladu rhywbeth gwahanol. Mae angen i ni oll, mewn busnes, ganolbwyntio mwy ar gysylltu gyda'n gilydd, meithrin perthynas wirioneddol, go iawn yn hytrach na gwerthu, gwerthu, gwerthu gyda phobl, nid cleientiaid neu gwsmeriaid, pobl! Mae Jess MOR angerddol ynglŷn â hyn, mae wedi adeiladu busnes o'i gwmpas! Roedd eisiau meithrin asiantaeth gyda phersonoliaeth a brwdfrydedd, felly dyma'n union a wnaeth.

Felly dyma ni (Jess, Dave, Lauren, Gareth a Loren), tîm Jessica Draws, tîm o 5 (ond 6 os ydych yn cynnwys ein ci Ruby). Rydym wedi ein lleoli ynghanol Y Fenni, yn gweithio gyda phobl a thimau ledled y byd i'w helpu i gysylltu gyda'r bobl maent eisiau gweithio gyda nhw! Rydym yn dilyn ein pregeth ein hunain, felly rydym yn eu helpu i gyfleu gwerthoedd eu brand, eu personoliaethau a'u diwylliant drwy gyfrwng fideo, datblygu brand, marchnata print, darluniau, animeiddio a negeseuon creadigol! Ein gweledigaeth yw cael ein gafael creadigol ar wybodaeth y Byd a'i hail-ddylunio fel bod pawb (hyd yn oed eich nain) yn gallu deall beth sy'n digwydd.

Hoffem ddiolch i'n cyfranwyr:



EVERETT | TOMLIN
LLOYD & PRATT
SOLICITORS

fsb
Experts in Business

Rydym yn frwd o ran sicrhau ein bod yn dod i adnabod pawb rydym yn gweithio gyda nhw, a'u busnesau, o'r tu mewn a'r tu allan, er mwyn i ni allu gwneud y gwaith gorau y gallwn i'w helpu i gael effaith a meithrin eu perthynas eu hunain gyda darpar gwsmeriaid newydd.

I gloi, mae gennym newyddion cyffrous ... rydym yn ail-frandio ac yn falch o gyhoeddi ein henw newydd, Tiny Wizard Studio! Felly, dewch yn ôl i weld i weld datblygiadau cyffrous 2020.

Cyswllt:

E: info@jessicadraws.com

T: 01873 739278

W: jessicadraws.com

**Jessica
Draws**

Aelodau Newydd

AshOak Construction

www.ashoakconstruction.co.uk

Betterclean

www.bettercleanservices.co.uk

CAO Selection Ltd

carole-anne.owen@caoselectionlimited.co.uk

Charlotte Alexander Bridal

www.charlottealexander.co.uk

Coles Electrics

www.coleselectrics.co.uk

Easi Ear

www.easi-ear.com

FI Real Estate

www.fi-rem.com

Folly Contractors

www.follycontractors.co.uk

Hypnotherapy by Eleanor Gladwyn

www.interaliacm.co.uk

Jessica Draws Media

www.jessicadraws.com

Llew Financial Services

www.facebook.com/shaun.chris.advisors

See No Bounds

www.seenobounds.co.uk

Tim Huckle

www.linkedin.com/in/timhuckle

University of South Wales - Research & Business Engagement

www.southwales.ac.uk/exchange

Utility Warehouse Discount Club

www.jointheclub.org.uk/N64717